

Cynllun Bwrsari Heddlu De Cymru i leiafrifoedd ethnig ar gyfer y Radd mewn Plismona Proffesiynol

Cylch Gorchwyl

Mae Heddlu De Cymru yn gwasanaethu poblogaeth leol o 1.3 miliwn o bobl, y mae 6.7% ohonynt o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Fodd bynnag, dim ond 3.5% o'n swyddogion yr heddlu sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gyda chynrychiolaeth o 2.9% ym mhob rhan o'r heddlu. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth hon er mwyn i ni allu gwasanaethu ein cymunedau amrywiol yn well.

Er mwyn mynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth hon, mae Heddlu De Cymru yn gweithio gyda phrifysgolion lleol yng Nghymru sy'n cynnig Gradd mewn Plismona Proffesiynol, a bydd yn ariannu cynllun bwrsari i fyfyrwr/myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig ar y cwrs hwnnw fel rhan o fenter gweithredu cadarnhaol. Dim ond i'r unigolion hynny sy'n ystyried eu bod yn dod o leiafrif ethnig y rhoddir y cymorth bwrsari hwn.

Diben cynllun bwrsari Heddlu De Cymru yw annog mwy o geisiadau gan grwpiau a dangynrychiolir a sicrhau bod Heddlu De Cymru yn fwy cynrychioliadol o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, a bydd yn rhoi cymorth ariannol drwy'r cynllun bwrsari i unrhyw fyfyrwr/fyfyrwyr o leiafrif ethnig sy'n cofrestru ac yn cwblhau'r Radd mewn Plismona Proffesiynol.

Lle y bo'n bosibl, bydd myfyrwyr ar y cwrs gradd hwn yn gwneud cais llwyddiannus i ddod yn Gwnstabl Gwirfoddol yn ystod eu hamser yn astudio ar y cwrs ac, ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddant yn symud (drwy broses gwneud cais a dethol) i fod yn Swyddog Heddlu yn Heddlu De Cymru.

Meini prawf y bwrsari

Er mwyn i unrhyw fyfyrwr gael ei dderbyn ar gyfer Cynllun Bwrsari Heddlu De Cymru, rhaid iddo fodloni'r canlynol:

- Dod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol
- Bod yn fyfyrwr mewn unrhyw un o'r prifysgolion canlynol sydd wedi cofrestru ar gyfer y Radd mewn Plismona Proffesiynol neu'n astudio'r radd honno:
 - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
 - Prifysgol De Cymru
 - Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Bodloni'r meini prawf cymhwysedd gofynnol cenedlaethol i ymuno â gwasanaeth yr heddlu fel Cwnstabl yr Heddlu. Ymhlith y meini prawf hynny mae'r canlynol:
 - Bod yn 18 oed neu'n hŷn

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

- Bod yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd gwlad sy'n aelod o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (<https://www.gov.uk/eu-eea>), neu'r Swistir. Mae dinasyddion y Gymanwlad a thramorwyr sy'n byw yn y DU heb gyfyngiadau yn gymwys i wneud cais hefyd. Ar ôl 30 Mehefin 2021, bydd angen i ddinasyddion yr AEE neu'r Swistir ddarparu tystiolaeth hefyd eu bod yn byw yn y DU heb gyfyngiadau.
- Bod yn byw yn y Deyrnas Unedig am y tair blynedd diwethaf. Yr unig eithriadau yw eich bod wedi cael eich lleoli dramor gyda'r Lluoedd Arfog neu wedi cymryd gwyliau estynedig / teithio am gyfnod o 12 mis neu lai lle mae eich preswyliaeth yn y DU wedi parhau.
- Peidio â bod â Dyfarniad Llys Sirol, Trefniant Gwirfoddol Unigol na Gorchymyn Rhyddhad ar Ddyledion yn ei erbyn.
- Peidio â bod wedi'i gofrestru'n fethdalwyr.
- Ddim yn aelod neu'n gyn-aelod o sefydliad neu grŵp terfysgol gwaharddedig fel Plaid Genedlaethol Prydain, Combat 18 neu'r Ffrynt Cenedlaethol
- Nid yw tatŵau yn golygu y caiff unigolion eu hanghymhwyso'n awtomatig rhag dod yn swyddog heddlu. Fel arfer, mae aelodau o'r cyhoedd yn derbyn swyddogion a staff yr heddlu sydd â thatŵau. Fodd bynnag, gallai rhai tatŵau beri tramgwydd i'r cyhoedd neu i gydweithwyr o bosibl, neu gallent ddwyn anfri ar wasanaeth yr heddlu. Caiff pob tatŵ ei adolygu fesul achos. Yn gyffredinol, mae tatŵau gweladwy yn annerbyniol os gallent beri tramgwydd i eraill a/neu nodi agweddau neu farn wahaniaethol sy'n mynd yn groes i Ganllawiau'r Coleg Plismona. Ni dderbynnir ymgeiswyr yr ystyrir bod eu tatŵau yn hiliol, yn rhywiaethol neu'n homoffobig.
- Unrhyw rybuddion neu euogfarnau cyfredol neu flaenorol, gan gynnwys rhybuddion fel person ifanc (e.e. euogfarnau sy'n gysylltiedig â thraffig fel goryrru, troseddau yfed a gyrru, gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unrhyw ymddangosiadau gerbron llys milwrol). Caiff unrhyw euogfarn neu rybudd a ddatgenir ei (h)ystyried fesul achos.

Bydd disgwyl i bob myfyriwr gwblhau ffurflen gais ar gyfer y bwrsari a chytuno bod Heddlu De Cymru yn cynnal asesiad fetio.

Bydd yr asesiad hwn yn adolygu addasrwydd yr unigolyn er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer dod yn Swyddog yr Heddlu ar ddechrau'r bwrsari.

Os na ellir cwblhau asesiad fetio cychwynnol neu os na fydd unigolyn yn pasio'r asesiad fetio cychwynnol, ni chaiff yr unigolion hynny eu derbyn ar gynllun Bwrsari Heddlu De Cymru.

Arian Bwrsari

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Caiff arian bwrsari ar gyfer unrhyw fyfyrwr o leiafrif ethnig sy'n gwneud cais am y Radd mewn Plismona Proffesiynol ac yn dechrau'r Radd honno ei ddarparu bob blwyddyn yn y ffordd ganlynol (yn weithredol o fis Hydref 2022), ar yr amod y bydd yn llwyddo i basio'r holl wiriadau cymhwysedd:

- £1000 ar ôl cofrestru a dechrau'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol
- £500 ar ôl cwblhau blwyddyn 1 yn llwyddiannus
- £500 ar ôl cwblhau blwyddyn 2 yn llwyddiannus
- £500 ar ôl cwblhau blwyddyn 3 yn llwyddiannus
- £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio)

Ar gyfer unrhyw fyfyrwr o leiafrif ethnig sy'n astudio'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol (gradd garlam) ym Mhrifysgol De Cymru, darperir y canlynol:

- £1000 ar ôl cofrestru a dechrau'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol
- £750 ar ôl cwblhau blwyddyn 1 yn llwyddiannus
- £750 ar ôl cwblhau blwyddyn 2 yn llwyddiannus
- £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio)

Hefyd, bydd unrhyw fyfyrwr o leiafrif ethnig sydd wedi cofrestru ar y cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol (Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2) ar hyn o bryd yn cael taliad bwrsari. Caiff y taliad hwn ei dalu ar sail pro rata ac o'r flwyddyn astudio bresennol (ac ar ôl hynny), yn ddarostyngedig i basio'r holl wiriadau cymhwysedd yn llwyddiannus.

Cyfnod amser a chymorth

- Bydd myfyrwr o leiafrif ethnig sydd â Gradd mewn Plismona Proffesiynol o unrhyw un o'r prifysgolion y soniwyd amdanynt yn flaenorol (sy'n graddio ym mis Hydref 2023 neu ar ôl hynny), yn cael £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio).
- Bydd myfyrwr o leiafrif ethnig sydd ar hyn o bryd ym Blwyddyn 2 y cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol o unrhyw un o'r prifysgolion y soniwyd amdanynt yn flaenorol, yn cael:
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 2 yn llwyddiannus
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 3 yn llwyddiannus.
 - £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio)

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

- Bydd myfyrwyr o leiafrif ethnig sydd ar hyn o bryd ym Mlwyddyn 1 y cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol o unrhyw un o'r prifysgolion y soniwyd amdanynt yn flaenorol, yn cael:
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 1 yn llwyddiannus
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 2 yn llwyddiannus
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 3 yn llwyddiannus.
 - £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio)
- Bydd myfyrwyr o leiafrif ethnig nad ydynt wedi dechrau astudio'r Radd mewn Plismona Proffesiynol eto ond a fydd yn cofrestru ac yn dechrau'r Radd mewn Plismona Proffesiynol o unrhyw un o'r prifysgolion y soniwyd amdanynt yn flaenorol, yn cael:
 - £1000 ar ôl cofrestru a dechrau'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 1 yn llwyddiannus
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 2 yn llwyddiannus
 - £500 ar ôl cwblhau Blwyddyn 3 yn llwyddiannus.
 - £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio)
- Bydd myfyrwyr o leiafrif ethnig sy'n cofrestru ac yn dechrau'r Radd mewn Plismona Proffesiynol (gradd garlam) ym Mhrifysgol De Cymru, yn cael:
 - £1000 ar ôl cofrestru a dechrau'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol (gradd garlam)
 - £750 ar ôl cwblhau blwyddyn 1 yn llwyddiannus
 - £750 ar ôl cwblhau blwyddyn 2 yn llwyddiannus
 - £1500 ar ôl cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabiliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio)

Ystyriaethau daearyddol:

Caiff y bwrsari ei roi i bob myfyriwr o leiafrif ethnig sydd wedi cofrestru gyda'r prifysgolion canlynol yn Ne Cymru sy'n darparu'r Radd mewn Plismona Proffesiynol:

- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cais am fwrsari

Bydd modd i'r canlynol wneud cais am y bwrsari:

- Unigolion sy'n ystyried eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.
- Unigolion o leiafrif ethnig sy'n llwyddo i basio'r holl feini prawf cymhwysedd ar gyfer dod yn Gwnstabl yr Heddlu. Y maen prawf hwn yw'r cymhwysedd gofynnol i wneud cais i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu yn y dyfodol.

O ran addasrwydd unigolyn i gael bwrsari ac i wneud cais/ceisiadau i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu o bosibl yn y dyfodol, rhaid i bob unigolyn gwblhau ffurflen gais a rhoi gwybodaeth bersonol. Mae'r hysbysiad preifatrwydd i'w weld drosodd. Rhaid i chi ddarllen yr hysbysiad hwn cyn i chi roi unrhyw wybodaeth bersonol ar y ffurflen hon. Bydd yr hysbysiad yn nodi pam mae angen y wybodaeth a sut y caiff ei phrosesu gan Heddlu De Cymru at ddiben cyflwyno a rheoli'r cynllun, gan gynnwys rhannu unrhyw wybodaeth â thrydydd partïon.

Caiff y wybodaeth a roddir ei hystyried er mwyn sicrhau bod gwiriadau cyn fetio sylfaenol yn cael eu bodloni ac na chaiff unigolyn sydd am ddod yn Gwnstabl yr Heddlu yn y dyfodol ei wrthod yn awtomatig.

Ystyriaethau o ran cost

- Uchafswm o £4,000 fesul myfyriwr o leiafrif ethnig fesul cwrs. Bydd Heddlu De Cymru yn trefnu bod y myfyriwr/myfyrwyr yn cael taliad uniongyrchol ar ddechrau'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol ac ar ddiwedd pob blwyddyn a gwblheir yn llwyddiannus.
- Bydd Heddlu De Cymru yn rhoi'r taliad olaf i'r myfyriwr ar ôl derbyn cadarnhad ei fod wedi cymryd rhan mewn Canolfan Asesu Cwnstabliaid yr Heddlu i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu gyda Heddlu De Cymru. (Dylid cofrestru mewn Canolfan Asesu o fewn 24 mis ar ôl graddio).

Adolygiad

- Caiff effeithiolrwydd y taliad bwrsari a'r trosglwyddiad i gais Cwnstabl yr Heddlu ei fesur ar ôl pob hysbyseb ar gyfer Cwnstabl yr Heddlu a phob canolfan asesu. Dylai effeithiolrwydd gael ei fesur yn y ffyrdd canlynol:
 - 90% o fyfyrwyr bwrsari yn cwblhau'r Radd mewn Plismona Proffesiynol yn llwyddiannus.
 - 90% o fyfyrwyr bwrsari yn gwneud cais i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu.
 - 80% o fyfyrwyr bwrsari yn gwneud cais llwyddiannus i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu.

Mae Heddlu De Cymru yn cadw'r hawl i gynnal proses ddethol i dderbyn ymgeiswyr ar y cynllun bwrsari. Cynhelir proses ddethol os bydd mwy na 12 o unigolion yn gwneud cais mewn unrhyw flwyddyn.

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL



Hysbysiad Preifatrwydd

Manylion cyswllt

Heddlu De Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon. I gael gwybodaeth am y ffordd y mae Heddlu De Cymru yn prosesu data personol, ewch i'n gwefan [Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](https://south-wales.police.uk). Noder, mae hefyd yn cynnwys manylion ein Dogfennau Polisi Priodol.

Ein Manylion Cyswllt a'n Swyddog Diogelu Data

Ein Tîm Diogelu Data sy'n gyfrifol am reoli ein cydymffurfiaeth â rheolau diogelu data. Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Arweiniol ar y cyd ar gyfer Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Swyddfa Diogelu Data
Pencadlys Heddlu De Cymru
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU

E-bost: Dataprotection@south-wales.police.uk

Diben ar gyfer prosesu

Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn galluogi Heddlu De Cymru i reoli'r cynllun bwrsari o'r broses o asesu cymhwysedd i ddarparu a thalu'r bwrsari a chefnogi cyfranogwyr hyd at y broses recriwtio.

Bydd Heddlu De Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol fel rhan o wiriadau cyn fetio er mwyn asesu eich cymhwysedd i wneud cais i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu yn y dyfodol.

Caiff y wybodaeth hon ei phrosesu o dan Ran 2 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – Prosesu Cyffredinol.

Ein seiliau cyfreithlon dros brosesu'r wybodaeth hon yw:

Data personol:

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Erthygl 6(1)(e) mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gaiff ei chwblhau er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd

Data categori arbennig:

Erthygl 9(2)(b) mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol y rheolydd neu'r testun data ym maes cyfraith cyflogaeth, cyfraith nawdd cymdeithasol a chyfraith diogelwch cymdeithasol i'r graddau y caiff ei awdurdodi gan gyfraith y DU sy'n darparu ar gyfer mesurau diogelwch priodol ar gyfer hawliau sylfaenol a buddiannau'r testun data;

Erthygl 9(2)(g) mae prosesu'n angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd, ar sail cyfraith y DU a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelwch data ac yn darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau'r testun data

Atodlen 1 Rhan 1 Deddf Diogelu Data 2018 adran 1(1) lle mae angen prosesu at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau neu arfer hawliau a roddir neu a osodir ar y rheolydd neu'r testun data yn ôl y gyfraith mewn cysylltiad â chyflogaeth.

Atodlen 1 Rhan 2 Deddf Diogelu Data 2018 adran 8(1) Cyfle neu driniaeth gyfartal

Rhannu eich gwybodaeth

Er mwyn gwirio eich cymhwysedd a'ch cynnydd a rhoi cymorth, byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol â rhai trydydd partïon, gan gynnwys y prifysgolion sy'n cymryd rhan, asiantaethau perthnasol at ddibenion fetio a Thîm Gweithredu Cadarnhaol De Cymru a all gysylltu â chi i gynnig cymorth a chysiau ar gyfer unigolion o leiafrifoedd ethnig sy'n gwneud cais i ymuno â'r heddlu.

Yr hyn y byddwn yn ei wirio:

Eich manylion cyswllt a'ch cyfeiriadau presennol

Bydd hyn yn ein galluogi i gysylltu â chi am eich cais a'ch cynnydd drwy gydol y cynllun.

Cyfeiriadau blaenorol (lle y bo'n gymwys)

Mae angen y rhain at ddiben gwiriadau fetio.

Eich rhif Yswiriant Gwladol

Caiff hwn ei ddarparu er mwyn sicrhau bod eich cais am fwrsari ar gyfer y Radd mewn Plismona Proffesiynol yn gyson ag unrhyw gais y byddwch yn ei wneud i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu a chofrestru â chanolfan asesu, ar system Orlhain Ymgeiswyr Heddlu De Cymru. Pan gadarnheir bod y manylion hynny'n gyson, caiff taliad olaf y bwrsari ei wneud.

Ethnigrwydd

Mae angen y manylion hyn er mwyn asesu cymhwysedd ar gyfer y cynllun ac ar gyfer rhwymedigaethau adrodd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Y brifysgol a ddewiswyd

Bydd angen i Heddlu De Cymru gysylltu â'r brifysgol a ddewiswyd gennych i ofyn iddi gadarnhau'r canlynol er mwyn sicrhau y gellir talu'r bwrsari:

- Cadarnhad o'ch ethnigrwydd sydd wedi'i gofrestru â'r brifysgol
- Cadarnhad o'r dyddiad dechrau ar gyfer dechrau'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol neu'r cwrs Gradd mewn Plismona Proffesiynol carlam
- Eich cynnydd ar y cwrs ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r flwyddyn yn llwyddiannus
- Cadarnhad o'r dyddiad gorffen a'r dyddiad graddio.

Caiff eich manylion personol eu cadw am gyfnod o 24 mis ar ôl i chi raddio er mwyn sicrhau y gellir cysoni cofnodion ar gyfer gwneud y taliad bwrsari olaf i chi, os byddwch yn gwneud cais i ddod yn Gwnstabl yr Heddlu drwy broses recriwtio Heddlu De Cymru.

Talu'r bwrsari

Er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei dalu (os cewch eich derbyn ar gyfer Cynllun Bwrsari Heddlu De Cymru i Leiafrifoedd Ethnig ar gyfer y Radd mewn Plismona Proffesiynol), bydd angen i Heddlu De Cymru gael eich manylion banc rywbyrd yn y dyfodol er mwyn trosglwyddo'r taliad(au).

Cymhwysedd a gwybodaeth bellach

Mae angen y wybodaeth hon fel rhan o'r gwiriadau cymhwysedd a'r gwiriadau cyn fetio a gynhelir ar gyfer pob unigolyn sy'n gwneud cais i ymuno â'r heddlu.

Trosglwyddiadau

Ni fydd Heddlu De Cymru yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir o dan y cynllun hwn y tu allan i'r DU.

Cadw

Ni fydd Heddlu De Cymru yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol am gyfnod hwy nag sydd ei angen at ddibenion gwirio cymhwysedd, gweinyddu'r cynllun a recriwtio, yn dibynnu ar yr amser y mae'r ymgeisydd yn ei dreulio ar y cwrs. Caiff gwybodaeth ei chadw am o leiaf 24 mis er mwyn gallu adrodd arno ac atal unrhyw achosion o gamddefnyddio'r cynllun.

Ni ddefnyddir y wybodaeth hon i wneud unrhyw benderfyniadau awtomataidd.

Os bydd unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch y ffordd y mae Heddlu De Cymru yn trin data personol, dylech gysylltu â ni ar y manylion a roddir ar ddechrau'r hysbysiad hwn a byddwn yn ceisio datrys unrhyw faterion.

Os byddwch yn anfodlon o hyd ar y ffordd rydym yn prosesu eich data personol, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

ICO.org.uk

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113